Mai 2009 Rhifyn 177

Y Ffordd i Emaus

A dyma Iesu'n mynd dros bopeth ac yn esbonio iddyn nhw beth roedd Moses a'r proffwydi eraill wedi ei ddweud amdano yn yr ysgrifau sanctaidd
(Luc 24:17)

Gair i'n Gilydd

"Na ddywed neb fod y delfryd hwn yn rhy uchel. Cadwed Duw ni rhag y diffyg ffydd a ddywaid fod ein delfrydau uchel yn 'rhy dda i fod yn wir.' Nid oes dim yn rhy dda i fod yn wir … Pob gweledigaeth aruchel a roddir i ni, addewid ydyw fod posibilrwydd ei sylweddoliad eisoes yn y golwg. Bob yn gam y cyrhaeddir yno, y mae'n wir; ond nid oes gan Eglwys Dduw hawl i ddal i fyny yng ngwydd y byd yr un delfryd is na'r uchaf a ddatguddiwyd iddi. Boed i ni fod yn ffyddlon i'r weledigaeth a gawsom, ac fe ddenwn y byd ar ein holau i geisio ei sylweddoli. Trwy hynny, byddwn yn prysuro'r dydd y bydd Teyrnas ein Harglwydd Iesu Grist wedi ei sefydlu ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd."

David Thomas (O *Hiraeth am Yfory*, Angharad Tomos Gomer, 2002) tt 152-3).

Cyd-weddïwn
O Dduw, diolch i ti am ein hatgoffa nad oes dim yn rhy dda i fod yn wir.

Gawn ni ddiolch i ti am deulu. Am deulu'r gwaed a theulu'r gwead. Teulu ein hachau a theulu ein cylchoedd cydnabod. Y teulu y rhannwn ein hanes ag o a'r teulu y rhannwn ein byw a'n bod ag o. Teulu cymdeithas ac eglwys.

Diolch i ti am ddau faen prawf hen genedl y Cymry, sy'n profi'r gwreiddiau, y gwaed a'r gwead fel ei gilydd. O lle dan ni'n dod ac i bwy dan ni'n perthyn. Diolch i ti mai o yma ydyn ni'n dod. Mai yma ydyn ni'n perthyn.

Diolch i ti am fagwraeth yn nheuluoedd y ffydd led led Cymru a thu hwnt ac am wead ein cymdeithas ni yma heddiw.

Diolch i ti am osod ynom ni y gred na all dim fod yn rhy dda o'i godi ar y sylfaen a osodaist ti i ni – nad oes dim o'r fath yn rhy dda i fod yn wir.

Atogffa ni, o Dduw, am egwyddor cyd-weithredu. Nad casgliad o unigolion mohonom ond cymdeithas o bobl yn cydweithredu at nod

aruchel dy deyrnas di. Casgliad o ddoniau sydd rhyngddynt yn gallu cyflawni unrhywbeth. Diolch i ti am gyd-ymdrech y genhedlaeth a gododd sefydliadau lleol a chenedlaethol fricsen wrth fricsen, geiniog wrth geiniog gwerin dlawd. Diolch i ti nad oeddan nhw'n gweld egwyddor cyd-ymdrech a chyd-weithrediad yn rhy dda i'w hymarfer. Atgoffa ninnau, a'n hoes ninnau, o'r un egwyddor, y gall cyd-ymdrech a chyd-weithrediad gyflawni llawer iawn rhagor na gweithredoedd unigol miloedd o bobl.

Atgoffa ni nad oes dim yn rhy dda i fod yn wir.

Rho i ni unwaith eto y weledigaeth i weld y tu hwnt i anialwch gwastad ein dyddiau ni. Arwain ni i dir uwch. Ac o'r tir hwnnw gad i ni weld llwybr clir i'r dyfodol. Wrth i ni weld y ffydd ddiweddar yn gwegian mewn eglwysi gweigion – hen gred dau ddegawd mewn diwylliant prynu a phethau yn bopeth a phopeth yn bethau. A'r ffydd honno'n gwegian mewn archfarchnadoedd gweigion, agoffa ni o hen ffydd dau fileniwm a'i gred yn nheulu'r eglwys yn cydweithredu, yn cydweithio dan arweiniad y Brenin Tlawd lle nad oes dim yn rhy dda a bod gwerth tu hwnt i bris.

Rhanna dy weledigaeth â ni a chaniata i ni weithredu gan wybod nad oes dim yn rhy dda i fod yn wir.

Gad i ni weld unwaith eto fod lle i egwyddor mewn bywyd. Nad rhywbeth sy'n ddarostyngedig i elw a chyfle mohono ond rhywbeth canolog i'n byw a'n bod. Nad rhywbeth hen ffasiwn yn perthyn i oes o'r blaen, oes lai soffistigedig na'n hoes ni, yw egwyddor, ond rhywbeth i fod yn falch ohoni ac i'w gosod yn faen prawf i bob peth a wnawn mewn bywyd. Atgoffa ni mai dy egwyddorion di yw ein hegwyddorion ni ac egwyddorion y gymdeithas yr ydym yn perthyn iddi. Cymdeithas sy'n cynnal ei gilydd mewn economi wirfoddol ar gyfalaf o gariad. Atgoffa ni nad yw'n bosibl i hyn fod yn rhy dda.

Argyhoedda ni nad oes modd i hyn fod yn rhy dda **i fod yn wir**.

Cynorthwya ni i weithredu, yn deulu a chymdeithas, o waed ac o wead, i ailsefydlu dy egwyddorion di, i gydweithio a chydweithredu ac i gynnig gweledigaeth i oes lwyd a chyfnod llwm.

Yn dy enw di a'th fab Iesu Grist, y Bugail Da, a brofodd nad oedd o na'r un o'i weithredoedd yn rhy dda i fod yn wir.

Amen

Arwel Jones
Gweddi bore Sul Mawrth 15fed.

Barod i ddechrau ar yr Helfa Wyau ar fore heulog Llun y Pasg

Mynd gyda Iesu ar y ffordd i Emaus

Mae stori y ddau ddisgybl ar eu taith i Emaus yn un o hanesion amlycaf y Pasg. Dau ddisgybl a oedd wedi eu siomi a'u dadrithio gyda'r digwyddiadau diweddar yn Jeriwsalem. Dau ddisgybl a oedd i bob pwrpas yn ceisio dianc o'r helyntion a wynebai Cristnogion yn y ddinas honno wedi croesholiad Iesu. Ond, wrth gwrs, fe drawsffurfiwyd y siwrnai honno wrth i'r ddau gael cwmni Iesu ei hun ar y daith. Newidiwyd y daith i fod yn un o obaith a llawenydd yn hytrach na bod yn un o anobaith a siom.

Ar y naill law, gallwn ni feddwl am y stori fel trosiad. Gallwn gymharu'r daith i Emaus gyda siwrnai Cristion tuag at Iesu wrth iddo ef neu iddi hi ymgryfhau yn y ffydd. Yn yr un modd, cynrychiola'r siwrnai i Emaus ein taith ni fel Cristnogion drwy ein bywyd yng nghwmni Iesu.

Ond efallai bod modd i ni feddwl am deithio tuag at a chyda Iesu mewn cyd-destunau mwy llythrennol. Wrth gwrs, roedd Cristnogion y gorffennol y gyfarwydd iawn â'r syniad o deithio tuag at a chyda Iesu mewn ffyrdd llythrennol. Roedd y syniad o bererindod – i Jeriwsalem, i Rufain, i Santiago de Compostela neu i gyrchfannau mwy lleol, yn rhan annatod o fywyd y Cristion. Mae rhai yn dal i gynnal y traddodiadau Cristnogol hyn. Er enghraifft, mae'r bererindod i Taizé yn un sydd dal yn boblogaidd ymysg Cristnogion o bob math.

Serch hynny, mae llawer o'r hyn yr ydym ni yn ei wneud fel Cristnogion yn dueddol o fod yn statig iawn – yn y capel neu'r eglwys. Rydym yn dueddol o ddod i'r cwrdd, o eistedd yn ein seddau ac aros yn llonydd – onibai fod angen i ni redeg ar ôl plentyn diwardd i'w atal rhag ceisio ymuno gyda'r pregethwr yn y pulpud wrth gwrs!

Soniodd y Parchedig Dafydd Andrew Jones fore dydd Sul y Pasg am yr angen i ni fel Cristnogion i ddatgloi'r drws gan bod perygl i ni, fel arall, i gael ein parlysu gan ofn a chan ffiniau dychmygol. Tybed ai un ffordd o geisio datgloi'r drws yw drwy geisio teithio gyda Iesu; yn llythrennol ac yn drosiadol? Mae'n haws yn aml i siarad ac i rannu profiadau personol wrth gerdded gyda pherson arall yn hytrach nag eistedd yn llonydd.

Efallai y gall ein haddoliad – a'n hymdrech i siarad â Duw – gael ei hybu drwy gerdded gyda Christnogion eraill ac, wrth gwrs, gyda Iesu.

A oes potensial, felly, i ni ddod â symudolrwydd i mewn i'n haddoli yn fwy cyson? Roedd prosesiwn dydd Gwener y Groglith yn esiampl dda o'r ffordd y gallwn geisio gwneud hyn. Tybed a oes modd i ni fel eglwys – efallai mewn cyd-weithrediad ag eglwysi eraill – i gerdded gyda'n gilydd yn amlach? Y gobaith yw y bydd cerdded gyda'n gilydd yn y fath fodd yn ein galluogi i deithio'n haws tuag at a chyda Iesu.

Dr. Rhys Jones

The Road to Emmaus gan *He Qi* (gweler http://www.heqigallery.com/shop/Easter_Prints.html)

Newyddion

Llongyfarchiadau i ….

- *Anest Eirug, Ifan Llywelyn* a *Sioned Llywelyn* ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd a phob dymuniad da iddynt yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Caerdydd – *Anest* ar yr unawd o dan 8 oed, *Ifan* ar yr unawd llinynnol dan 12 oed a *Sioned* ar yr unawd chwythbrennau dan 19 oed.
- Hefyd i *Brooklyn Griffiths* ar ennill gwobr yn Eisteddfod Celf a Chrefft yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion.
- Gwmni Drama *Arad Goch* ar ddathlu yr ugeinfed penblwydd ac i'r cyfarwyddwr artistig, *Jeremy Turner* a *Mari Rhian Owen.*
- *Rocet Arwel Jones* a *Sharon Owen* ar eu dyweddiad dros y Pasg. Mae'n braf iawn cael cwmni *Sharon* a *Gethin* yma yn Aberystwyth.

Anfonwn ein cofion at …

- *Mair Davies*, Erw Goch sydd wedi symud i Blaen-nos, Llanymddyfri a *David Griffiths*, Coedlan y Parc sydd yn treulio cyfnod yng nghartref Bodlondeb.
- Cofiwn hefyd am *T. L. Thomas a Dilys Stephens* a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar yn derbyn llawdriniaeth. Yr ydym yn meddwl amdanoch ac yn cofio amdanoch yn ein gweddïau, hefyd yr aelodau sydd mewn cartrefi preswyl neu yn gaeth i'w cartrefi eu hunain.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'n haelodau sydd wedi colli rhai annwyl iddynt:

- *Mrs. Enid Roberts*, Bodlondeb (gynt o Maeshendre) ar golli ei chwaer, Mrs Rose Richards, a oedd yn byw yn Ilford, Essex. Roedd Mrs Richards yn fodryb i *Roy a Cynthia.*
- *Non Walters* sydd wedi colli ei thad, sef *Mr. Jac Edwards*, Porthyrhyd, tad-yng-nghyfraith *Raymond* a thadcu *Catrin*.

Geni: Llongyfarchiadau i …

- *Gary ac Amy Appleton* ar enedigaeth *Elin Mai* – chwaer i *Tomos* ac wyres i *Gretta* a *Meirion Appleton*.
- Hefyd *Lewis a Pat Jones* ar enedigaeth *Eluned Chanhui*, chwaer i *Morgan* ac wyres i *Celia Jones*.

Helfa Wyau: Ymunodd nifer dda o deuluoedd â'r helfa wyau yng nghoedwig Penglais ar ddydd Llun y Pasg. Roedd hi'n ddiwrnod braf o Wanwyn a llwyddwyd i ddod o hyd i'r holl wyau a guddiwyd gan *Deian, Hefin a Rhys*. Diolch iddynt am drefnu a llongyfarchiadau i *Gwen* ar ddod o hyd i'r ŵy aur.

Cofiwch am Gymanfa Ganu Gogledd Ceredigion yn Eglwys Bethel, Aberystwyth ar Fai 10fed.

10 o'r gloch: Cyfarfod plant a ieuenctid o dan ofal Andy Hughes, cyfarwyddwr *Saint y Gymuned.* Thema: *Mae e'n fyw!*

6 o'r gloch: Cymanfa Ganu, Arweinydd: *Carol Davies*

Rihyrsals at y Gymanfa Ganu:
Ebrill 29: Bethel Tal-y-bont.
Mai 6: Bethel Aberystwyth.

Mai 21ain Sasiwn Chwiorydd y De yn Aberafan

Bydd *Dr. Rhidian Griffiths* yn annerch am 2:30 y prynhawn a *Mrs. Eirlys Davies*, Radyr, Caerdydd am 5:30 yr hwyr. Trefnir bws o Aberystwyth. Rhowch eich enwau i Mrs. Gwladys Adams os gwelwch yn dda.

Hel Meddyliau

Dychwelais yr offer y bûm yn defnyddio ar ôl fy namwain i'r ysbyty bore 'ma; pethau oedd wedi bod yn hynod ddefnyddiol. Ar y ffordd allan o Leri gwelais ddyn ifanc a fu yn ddisgybl i mi amser maith yn ôl. Erbyn hyn mae wedi ei gaethiwo i gadair olwyn gymhleth tu hwnt oherwydd ei fod yn dioddef o afiechyd creulon. Mae ond yn gallu symud trwy ddefnyddio'r botymau ar ei gadair. Wna i ddim ei enwi, ond rwy'n siwr fod llawer ohonoch yn ei nabod. Pan welodd fi roedd e yn wen o glust i glust gan ddweud wrth y nyrs fy mod wedi bod yn eu ddysgu. Ar ôl ei gofleidio gofynnais sut oedd yn teimlo. Ei ateb oedd:

Fi'n dal i Gredu

Nid siarad gwag oedd hyn, nid ystrydeb, ond siarad o'i galon am y Nerth oedd yn ei gadw i fynd. Pan gadawais galwodd ar fy ôl mewn llais uchel, cryf

Pob Bendith i chwi

Fe yn ei gadair olwyn am weddill ei fywyd, a minnau yn cerdded allan i'r heulwen i barhau fy mywyd llawn.

Wyddoch chi beth? Roeddwn yn teimlo fy mod wedi derbyn bendith y bore 'ma. Ei wên yn disgleirio drwy y cwbl, heb unrhyw hunan dosturi, ac yn dal i gredu. Ar y ffordd adref diolchais i Dduw am ei gwrdd. Bydd cofio am ei gadernid, ei ddewrder, ei siriol deb a'i ffydd yn aros gyda fi am amser maith.

Ann Davies

Newyddion Ebeneser

Mae Rhiannon yn falch iawn i fedru ail ddechrau wrth yr organ ar brynhawn Sul ar ôl misoedd o gaethiwed oherwydd gorfod cael un benglin newydd. Pwy ddaeth i'r adwy yn achlysurol? - Miss Eleri Davies, Mrs Mary Olwen Owen a Dr Brynley Roberts – diolch yn fawr iddynt, ond, wrth gwrs, mae'r diolch mwyaf i Mrs Mary Jones Morris â fu mor ffyddlon a chydwybodol wrth yr organ fach am fisoedd lawer heb anghofio ei help gyda'r canu. Diolch hefyd i Alun am ddod gyda hi a bod yn gefn inni yn y capel bach ar brynhawn Sul. Gobeithio y cawn eu cwmni eto yn y dyfodol agos.

Nawr bod y gwanwyn wedi cyrraedd a'r anwydau ac ati yn raddol ddiflannu hyderwn bydd ein cynulleidfa ar brynhawn Sul yn fwy cryno. Braf oedd cael cwmni Mr Dai Richards a'i wyr Mark yn yr oedfa ddechrau mis Ebrill. Bu Dai a'i briod yn ffyddlon iawn yn Ebeneser hyd nes i Glenwen ddioddef afiechyd blin am chwe mlynedd hyd ei marwolaeth ym mis Medi 2008. Croeso nôl atom.

Casglwyd £252.00 ym mlychau cenhadol chwiorydd Ebeneser, sydd yn swm anrhydeddus o'r capel bach. Diolch yn fawr iawn i'r chwiorydd .ac yn enwedig i Mrs Megan J Evans sydd mor frwdfrydig yng ngofal y trefniadau o rannu a chasglu y blychau yn flynyddol.

Llongyfarchiadau i Mrs Lilian Jenkins sydd unwaith eto yn hen fam-gu. Ganwyd Maïwenn Enfys, y cyntaf-anedig i'w hwyres Angharad a Trystan ar 4 Ebrill ac wyres gyntaf Geraint ac Ann Ffrancon, Llain Wen. Pob bendith ar y teulu bach sydd yn byw yn Abertawe.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Joyce Evans, 20 Heol Nanteos, Penparcau yn ei phrofedigaeth lem o golli mab arall, sef Mark, yn 36 mlwydd oed, a fu farw yn Ysbyty Bronglais ar 14 Ebrill ar ôl brwydr ddewr iawn. Roedd Paul, Neil, Mark a Dawn yn dod yn ffyddlon i'r Ysgol Sul yn Ebeneser ar ôl symud i fyw i'r pentref. Mae Joyce ac Ernest eisoes wedi colli Neal a Dawn ac ergyd fawr arall iddynt yw colli Mark. Cofiwn amdanynt a'i mab Paul ac yn enwedig â'i gymar ffyddlon Lindsey a Ella fach. Bydded iddynt i gyd fel teulu brofi o wir gysur yr Efengyl yn eu colled a'i siom o golli un oedd mor annwyl ganddynt.

.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at un o'n ffyddloniaid, sef Mrs Jeanie Jones â gafodd anafiadau ar ôl cwympo yn Aberaeron yn ddiweddar, ac i'r rhai sydd yn sâl adref, heb anghofio Miss Jeanie Evans yn Hafan y Waun,. Mrs Laura Rumsey-Williams yn Cysgod y Coed, Mr Bob Davies yng Nghwmcynfelin, Miss Mair Jones, Cartref Enfys, Ystradgynlais, a Mrs Mary Owen a Mr Alwyn Evans a'r ffrindiau eraill ym Modlondeb. Mae Mrs Clariss Pyle adref erbyn hyn ar ôl ysbaid fer yn Hafan-y-Waun.

Mae'r gwanwyn wedi cyrraedd ac felly gadewch i ni gyd godi ein calon a rhoi diolch i Dduw am ei ofal drosom o ddydd i ddydd.

Cythraul y wasg

'*But Jesus said unto her, Let the children first be killed'*.
All hynny byth â bod yn wir! Ond fel hynny yr argraffwyd Marc 7:27 ym Meibl Saesneg 1801, lle y ceir 'killed' yn lle 'filled'. Yn yr un Beibl cafwyd '*these are the murderers … walking after their own lusts*' (yn lle 'murmurers') yn Jwdas 1:16. Yr enw a roddir ar wallau argraffu fel hyn yw Cythraul y Wasg ac fel y gwelir, nid yw'r Beibl ei hun yn gallu dianc rhag y cythraul hwn. Sawl awdur, tybed, wrth ddarllen y cambrintiadau yn ei waith, sydd wedi cydsynio â Salm 119:161 ym Meibl 1702, '*printers have persecuted me'*, cyn sylweddoli mai 'princes' ddylai fod yno? Ceisiwyd dinistrio pob copi o Feibl 1631 cyn i bobl ddechrau ufuddhau i ffurf y seithfed gorchymyn fel yr oedd yn y Beibl hwnnw, '*Thou shalt commit adultery'*. Un ar ddeg o gopïau sydd ar ôl. Gair pwysig yw 'not', mae'n amlwg, fel ym Meibl 1653, '*Know ye not that the unrighteous shall inherit the Kingdom of God'* (1 Corinthiaid 6:9), yn lle 'shall not inherit'. Ond llai tramgwyddus, er yn hollol gamarweiniol, yw Jeremiah 34:16, sy'n sôn am y gweision '*whom he had set free'*, yn lle 'whom ye had set free'.

Beth am Feiblau Cymraeg? At ei gilydd, prin yw'r gwallau trychinebus. Gwir fod un Beibl yn darllen '*Hwn yw'r bar a ddaeth i waered o'r nef*' yn Ioan 6:41, lle y dylsid sôn am 'bara', ac mewn sgwrs â'r Parchg John Tudno Williams, fe atgoffodd ef fi am sylw'r diweddar Brifathro Tom Ellis Jones (Bangor), fod cyfieithwyr Testament Newydd 1975 'wedi amddifadu'r Arglwydd o ddwy fil o broffwydi' yn Rhufeiniaid 11:4 trwy nodi 5000 yn hytrach na'r 7000 cywir. Yr oedd y gwall wedi'i gywiro erbyn cyhoeddi'r Beibl yn 1988. Ond beth am Hebreaid 2:3 lle y gadwyd cymal cyfan allan ym Meibl 'diwygiedig' (!) 2004? (Cewch chi fynd ati i chwilio). Mae'n gywir yn y Testament Newydd Dwyieithog a gyhoeddwyd yn 2006.

Ond ai gwall neu ddehongliad sydd yn Actau 17:23, yn y Beibl Cymraeg Newydd (1957, 1988, 2004, 2006) yn yr arysgrif ar yr allor yn Athen? '*I Dduw nid adweinir*', neu 'I dduw nid adweinir'. Nid yn aml y try cythraul yn bosibilrwydd testun trafodaeth seiat.

Dr. Bryn Roberts

Gweddi
Gwna ni'n ddisgwylgar

Arglwydd Dduw Dad,
diolchwn heddiw am dy rodd di o'r Ysbryd Glân:
cofiwn yr Ysbryd a ddaeth mewn grym a gallu,
yr Ysbryd a greodd mewn newydd-deb,
yr Ysbryd a rannodd lawenydd a thangnefedd,
yr Ysbryd a roddodd ystyr a chyfeiriad,
yr Ysbryd a ffurfiodd gymdeithas a chariad.
Cofiwn yr Ysbryd a fu'n symud droeon wedyn yn hanes ein cenedl,
yn ysbrydoli, yn goleuo, yn cyffroi,
yn cysuro, yn dryllio, yn arwain ac yn bywhau.
Arglwydd Dduw Dad,
sylweddolwn inni golli golwg ar dy Ysbryd di
a chael ein meddiannu gan ysbryd arall:
maddau'r ysbryd lles a dihyder;
yr ysbryd diobaith a thrist;
yr ysbryd rhanedig ac amheus;
yr ysbryd sy'n caethiwo, tawelu, tywyllu ac oeri.
Gwna ni'n ddisgwylgar
am yr Ysbryd a ryddhawyd ar y Pentecost
ac sy'n dal yn rhydd:
hwn yn unig all fwrw allan bob ysbryd arall.

Robin Wyn Samuel

Same Difference: Prosiect Celf Diddiwedd o Blant

Ann Davies oedd yr un i 'ddarganfod' y prosiect arloesol hwn, a hynny wrth bori'r we am syniadau ar gyfer arddangosfeydd fyddai'n ffitio i raglen digwyddiadau'r Morlan. Diolch byth iddi wneud hynny oherwydd, heb os, arddangosfa *Same Difference* – a oedd i'w weld yn neuadd Morlan trwy gydol mis Mawrth – yw un o uchafbwyntiau fy nghyfnod yn y Morlan hyd yma.

Prosiect celf plant yw *Same Difference* a gynhelir gan y mudiad *International Service*. Mae'n syniad syml iawn ond yn effeithiol iawn, ac wedi'i seilio ar weithdai celf lle mae plant yn creu llun ar un ochr o gerdyn ac yn ateb tri chwestiwn ar yr ochr arall:

- Beth yw eich hoff bethau.
- Beth ydych chi'n hoffi a beth nad ydych yn hoffi am y lle rydych yn byw?
- Beth ydych am fod / ei wneud yn y dyfodol?

Caiff y cardiau hyn eu rhoi at ei gilydd wedyn i greu arddangosfa liwgar a deniadol. Yn wreiddiol, rhoddwyd y cardiau mewn casys CD gwag gan ddefnyddio tâp gludiog i'w dal at ei gilydd er mwyn gallu arddangos y gwaith ond, wrth i'r prosiect dyfu, nid oedd hyn yn ymarferol iawn a chynlluniwyd fframiau arbennig i ddal y cardiau. Yr hyn sy'n arbennig am y fframiau, yw bod modd eu haddasu i ffitio'r gofod sydd ar gael i'r arddangosfa wrth eu gosod ar ffurf sbiral, cylch, igam ogam, neu siap arall. Golyga hyn bod modd i'r arddangosfa ymweld ag amrywiaeth o leoliadau.

Mae'r prosiect yn un fyd-eang a caiff gweithdai eu cynnal yn y DU a thramor mewn gwledydd megis Bolifia, Palesteina a Burkina Faso yn Affrica. Nod y gweithdai yn y gwledydd hyn yw hybu hyder a hunanwerth mewn plant sy'n byw gyda HIV/AIDS, gwrthryfel, anabledd a thlodi eithafol. Rhoddir cyfleoedd iddynt fynegi eu hunan trwy gelf a chreadigrwydd. Yn y DU, yr un yw'r gweithdai ond fe'u defnyddir i godi

ymwybyddiaeth o faterion hawliau dynol a sut mae plant yn byw mewn gwledydd eraill.

Daeth Ross Georgeson – y person a ddyfeisiodd y prosiect – i'r Morlan ddechrau Mawrth i gynnal gweithdai gyda phlant lleol. Bu Ross yn gweithio i *International Service* ers sawl blwyddyn, ac wrth i mi holi sut oedd wedi dechrau gweithio yn y maes hwn dywedodd iddo ateb hysbyseb ym mhapur newydd y *Guardian* oedd yn datgan: *"Art Educator wanted in the Gaza Strip"*!

Bellach, mae plant o Ysgol Cwmpadarn, Ysgol Llanafan, Ysgol Rhydypennau ac Ysgol Sant Padarn wedi mynychu gweithdai celf yma a bydd pob un o'r cardiau a gynhyrchwyd ganddynt yn cael eu sganio a'u rhoi ar wefan Same Difference (www.is-samedifference.co.uk) gyda rhai o'r cardiau yn cael eu hychwanegu at yr arddangosfa ac yn teithio i bob math o lefydd gwahanol – y tro cyntaf i'r Gymraeg fod yn rhan o'r arddangosfa unigryw hon.

Yn ogystal, gyda chymorth yr Academi, trefnwyd bod Ifor ap Glyn, Bardd Plant Cymru, yn cynnal gweithdai barddoniaeth yn seiliedig ar yr arddangosfa, a mynychodd blant o Ysgol Talybont ac Ysgol Gymraeg Aberystwyth y gweithdai ddiwedd Mawrth. Bydd y cerddi a gyfansoddwyd ganddynt yn cael eu cynnwys yn y gyfrol bydd Ifor yn ei chyhoeddi ar ddiwedd ei gyfnod fel Bardd Plant Cymru.

Pam yr enw *Same Difference* felly? Yn syml iawn, mae'r atebion i'r tri chwestiwn yn amlygu'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng yr holl blant sy'n cymryd rhan yn y gweithdai; er bod sawl iaith i'w gweld yn yr arddangosfa, mae'n rhwydd gweld bod plant ar draws y byd yn mwynhau pêl-droed neu chwarae gyda'u ffrindiau ac mae nifer eisiau bod yn ddoctor, yn arlunydd neu'n athro ar ôl tyfu. Plant yw plant ble bynnag maent yn byw; yr hyn sy'n wahanol rhyngddynt yw'r sefyllfaoedd y maent yn byw ynddynt ac mae sylweddoli hynny wrth bori trwy'r cardiau yn ysgogi amrediad eang o emosiynau.

Mae gwaith celf plant bob amser yn lliwgar ac yn swyno pawb sy'n ei weld ac nid yw'r arddangosfa hon yn eithriad yn hynny o beth. Mae'r

gwaith yn codi gwen ac yn cynhesu'r galon - y darluniau lliwgar a'r sylwadau diniwed, fel y plentyn sydd am roi *"castell sboncio lan a lawr"* wedi iddo dyfu lan neu'r un sydd am ofalu am forgrug! Ond ochr yn ochr â'r rheiny mae yna ambell i sylw neu ddarlun treiddgar, dwys, ac wrth grwydro'r arddangosfa a meddwl am lle mae nifer o'r plant hyn yn byw a'r hyn sydd rhaid iddynt wynebu bob dydd, mae'n cyffwrdd â rhywun, yn enwedig o ystyried realiti'r sefyllfa a bod yna bosibilrwydd cryf bod rhai o'r plant bellach wedi'u lladd yn y gwrthryfel ym Mhalesteina, neu fod AIDS wedi'u cipio.

Mae'r arddangosfa yn cloi ein cyfres o ddigwyddiadau i nodi trigeinfed pen-blwydd y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol. Llwydda i roi boddhad a phleser i bawb sy'n ei gweld, ac mae hefyd yn ein hatgoffa am fodolaeth plant sy'n parhau i orfod byw heb nifer o'r hawliau sylfaenol hyn, a dyna, mae'n siwr, sy'n gwneud *Same Difference* mor arbennig.

Carol Jenkins
Canolfan Morlan

Capel Bryn Seion, Beavercreek

Pasg yn Beavercreek

Roedd sŵn canu emyn Cymraeg a gitar yn atseinio mewn capel bach gwyn hyfryd ymhlith y coed pîn enfawr: *Pererin wyf mewn anial dir*. Ar ôl taith awyr o Gymru i Oregon, yna dreifio lawr i Bryn Seion, Beavercreek, fel pob blwyddyn, teimlwn fy mod ar bererindod. Yna, wrth glywed y geiriau *Mae hiraeth arnaf am y wlad*, cofiais faint roeddwn wedi edrych ymlaen at ddathlu Sul y Pasg eleni gyda'r grŵp bach o Americanwyr o dras Cymreig sydd yn parhau i gwrdd yma ddwywaith bob mis.

Sefydlwyd capel Bryn Seion yn 1884, gan Gymry a ymgartrefodd yn yr ardal. Saesneg ydy mamiaeth pawb erbyn hyn, wrth gwrs, felly mae'r gwasanaethau a'r llyfrau emynau yn ddwyieithog. Mae bwrdd ar y wal yn dangos rhifau'r emynau, pa benillion a genir yn Saesneg, a pha rai yn yr hen iaith. Mae hi'n rhyfedd faint o ymdrech mae pawb yn ei wneud i ddysgu'r ynganiad, a chymaint maent yn trysori'r ddolen gyda hen wlad eu tadau.

Ar ôl y gwasanaeth, daeth cyfle i gymdeithasu: cinio *pot-luck lunch* yn y festri (y *Tŷ Te Bach*). Roedd llawer yn edrych ymlaen at y Gymanfa Ganu sy'n digwydd bob blwyddyn ar ddiwedd mis Mehefin, ac sy'n denu Cymry o bell. Yn fwy cyffrous eto, bydd Cymanfa Ganu fawr yn digwydd yn Portland ym mis Medi 2010, fel rhan o'r *North American Festival of Wales*. Disgwylir Cymry o bob rhan o'r Unol Daleithiau ac o Ganada, yn ogystal â rhai o Gymru, wrth gwrs!

Un peth arall: mae Bryn Seion yn chwilio am gapel yng Nghymru i greu cyswllt arbennig, er mwyn cryfhau'r ddolen Gymraeg. Tybed a fydd gan Gapel y Morfa ddiddordeb?

Laurie Wright

Ar y ffordd i'r helfa wŷau

Dyddiadur Mai 2009

Gwasanaethau'r Sul 10.00 a 6.00 Yng Nghapel y Morfa; 2.15pm yn Ebeneser

3 Parch. Nerys Tudor (Cymun yn yr hwyr).
10 Cymanfa Ganu yn Bethel. Mr. Lyn Lewis Dafis yn Ebeneser.
17 Parch Ifan Roberts.
24 Grŵp Dr. William Roberts (bore a Ebeneser), Parch. Raymond Jones (nos).
31 Pentecost. Parch Haydn Thomas (Cymun yn y bore).

Ysgolion Sul
Plant: bore am 10.00
Oedolion: ar ôl gwasanaeth y bore.

Clwb Ieuenctid: 7-9 ar nos Wener yn y Morlan.

Cylch gweddi a choffi: bore Mawrth am 10.30

Cyfarfodydd wythnosol: nos Iau am 7.00pm

Cymorth Cristnogol:
11 Cinio Bara a Chaws yn festri Seion.

Golygyddion y rhifyn hwn o Perthyn:
Hywel Lloyd a Laurie Wright.
Anfoner y deunydd am y rhifyn nesaf at
Ann Hawke (ayp@aber.ac.uk) neu
Arwel Jones (rej@llgc.org.uk)
erbyn y **15fed** o Fai

Swyddogaethau Mai 2009

Blaenor y Mis: Ann Davies.

Porthorion: David Alun Jones, Bryn Roberts, Elvey MacDonald, Rhiannon Roberts.
Ebeneser: Joyce Knight.

Blodau'r Cysegr - Capel y Morfa

3	Maggie Edwards a Gwenlais Jones.
10	Mair Griffiths.
17	Hywel a Julie Jones.
24	S.M. Roderick ac Eluned Morris.
31	Mattie ac Enid Jones.

Blodau Ebeneser

3	Jeanie Jones.
10	Ann Skitt.
17	Hilda Williams.
24	Betty Bailey.
31	Marian Weston.

Cynorthwywyr Llestri Cymun

3	Dilys Lloyd, Mary Howells, Ann Jones, Nancy Lovatt.

Cynorthwywyr Ariannol

3	Hefina Wright a Wynford Evans.
10	Glenys James a Elvey McDonald.
17	William a Mair Griffiths.
24	Beti Roberts a Blodwen Williams.
31	Alun a Mary Morris.

Tregerddan

26	Dan ofal David Alun Jones.